# Cydlynydd Tim (Y Celfyddydau Iechyd a Llesiant)

## Disgrifiad o'r Rôl

| | |
|---|---|
| Graddfa gyflog: | B |
| Cyfeirnod: | TCAHW |
| Tîm: | Y Celfyddydau, Iechyd a Llesiant (Ymgysylltu â'r Celfyddydau) |
| Adrodd i'r: | Rheolwr Rhaglen – Y Celfyddydau, Iechyd a Llesiant |
| Rheoli staff: | Dim cyfrifoldebau rheoli staff |
| Lleoliad: | Hyblyg – yn gallu gweithio o unrhyw un o swyddfeydd Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Teithio: | Achlysurol |

### Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n elusen annibynnol, a sefydlwyd drwy Siarter Brenhinol ym 1994. Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ydyn ni, a Llywodraeth Cymru sy'n penodi ein haelodau.

Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r rhan fwyaf o'n cyllid. Rydyn ni'n dosbarthu cyllid gan y Loteri Genedlaethol hefyd, ac yn codi arian ychwanegol ar gyfer y celfyddydau lle gallwn ni o amrywiaeth o ffynonellau'r sectorau cyhoeddus a phreifat.

Mae gennym olygon uchelgeisiol ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw creu Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau wrth galon bywyd a llesiant y genedl, gan wneud ein gwlad yn lle cyffrous a bywiog i fyw, gweithio ac ymweld â hi. Mae llwyddiant ein gweledigaeth yn dibynnu ar ddychymyg a chreadigrwydd ein hartistiaid, ansawdd eu gwaith a'r ymdrechion a wneir i estyn allan ac ysbrydoli cynulleidfaoedd. Rydyn ni'n gweithio i greu amgylchedd lle gall artistiaid uchelgeisiol a blaengar dyfu a llewyrchu, lle gall cynifer o bobl â phosibl fwynhau a chwarae rhan yn y celfyddydau.

### Ein gwerthoedd

Fel corff cyhoeddus, mae disgwyl i ni gynnal y safonau uchaf o ran atebolrwydd a bod yn agored. Rydyn ni'n gwerthfawrogi creadigrwydd ac arloesi hefyd. Mae ein staff yn aml yn cydweithio mewn grwpiau a thimau i gyflawni ein rhaglenni gwaith. Rydyn ni'n gosod pwyslais arbennig ar weithio mewn ffordd hyblyg a chydweithredol, ac rydyn ni'n cefnogi ein staff i feithrin a datblygu'r sgiliau hyn.

Hapus i Siarad
Gweithio Hyblyg

## Am y rôl

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n darparu rhaglen bwysig i hyrwyddo'r manteision y gall y celfyddydau eu cynnig i lesiant y boblogaeth ac wrth greu Cymru fwy cyfartal, diwylliannol a chynaliadwy. Rhaglen weithgarwch uchelgeisiol yw hon â'i nod yw gosod y celfyddydau wrth galon iechyd a llesiant y genedl.

Mae'r Cydlynydd Tîm (Y Celfyddydau Iechyd a Llesiant) yn sicrhau bod gweithgareddau'r Tîm yn cael eu cyflawni'n effeithiol trwy ddarparu gwasanaeth gweinyddol o safon uchel sy'n hwyluso gweithio hyblyg/mudol. Mae hyn yn cynnwys cydlynu cyfathrebu, gohebiaeth ac apwyntiadau. Mae'n cynnwys cynllunio, trefnu a gweinyddu cyfarfodydd hefyd.

## Prif gyfrifoldebau

Gweinyddiaeth – darparu cefnogaeth a chymorth ar gyfer y rhaglen ac aelodau'r Tîm gan gynnwys:

- rheoli gohebiaeth, galwadau ffôn a negeseuon e-bost yn unol â safonau'r Gymraeg
- gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau cyffredinol am y Celfyddydau ac Iechyd
- cynllunio, trefnu a chymryd cofnodion mewn cyfarfodydd
- sicrhau bod cofnodion a ffeiliau'n gywir ac yn gyfoes, a darparu cymorth cadw cofnodion ar gyfer y tîm trwy fod yn ddefnyddwyr arweiniol rheolaidd ar SharePoint a CWMPAS
- gwasanaethu a chynorthwyo gweinyddiaeth cyfarfodydd mewnol, allanol a grwpiau prosiect, bydd hyn yn cynnwys cymryd cofnodion mewn cyfarfodydd, gan gynnwys:
    - Grŵp Datblygu Rhaglen y Celfyddydau ac Iechyd
    - Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Celfyddydau ac Iechyd
    - cyfarfodydd cenedlaethol Cydlynwyr Tîm y Bwrdd Iechyd a Rhwydwaith Celfyddydau, Iechyd a Llesiant Cymru (RhCILlC)
    - cyfarfodydd gyda Byrddau Iechyd unigol a phartneriaid strategol eraill
- cydlynu gwaith Formstack mewn perthynas â'r celfyddydau ac Iechyd.

Llywodraethu – cydlynu cyfarfodydd Dyfarnu Grantiau trwy baratoi papurau a chofnodion cyfarfodydd, a diweddaru'r gronfa ddata grantiau.

Drafftio llythyrau cynnig, gwrthod a gohirio ar gyfer cronfeydd y Celfyddydau ac Iechyd, gan gynnwys:

- Cronfa Celfyddydau, Iechyd a Llesiant y Loteri
- Y Celfyddydau a Meddyliau
- Cyfarfodydd grant strategol ar gyfer y Celfyddydau ac Iechyd

Rheoli Prosiectau – helpu i gyflawni prosiectau a thasgau trwy:

- coladu data a gwybodaeth sy'n helpu'r Rheolwyr Portffolio a'r Cyfarwyddwyr i fonitro cynnydd cynlluniau prosiect
- helpu i gaffael gwasanaethau trwy helpu i ddatblygu'r briff, rheoli'r broses dendro, drafftio contractau a monitro taliadau, a sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni ar bob cam gan sicrhau gwerth gorau am arian wrth brynu gwasanaethau allanol.

Cyfathrebu a chydlynu – sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyfleu'n effeithiol ac yn brydlon i gydweithwyr.

Helpu i baratoi gwybodaeth berthnasol i'w chyhoeddi ar draws platfformau Cyngor y Celfyddydau.

Cydgysylltu â Chymdeithion a phobl â phrofiadau byw sy'n gysylltiedig â gwaith rhaglen y Celfyddydau ac Iechyd.

Rheoli perthnasau – sicrhau safon uchel o wasanaethau cwsmeriaid wrth ddelio â'r cyhoedd, gan gymryd cyfrifoldeb dros groesawu ymwelwyr ac ateb ac ailgyfeirio galwadau i'r switsfwrdd.

Achlysuron – helpu i gynllunio, cydlynu a gweinyddu achlysuron.

Cyllid – defnyddio'r system gyllid iPOS i godi archebion prynu, prosesu anfonebau a gosod cyflenwyr newydd ar y system.

Cydymffurfiaeth gorfforaethol – dilyn y polisïau hynny sy'n amddiffyn Cyngor y Celfyddydau a'i staff rhag datguddiad posibl i risgiau a digwyddiadau adroddadwy. Mae'r rhain yn cynnwys Atal Twyll, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Safonau'r Gymraeg, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Seiberddiogelwch/defnyddio TGCh. (Diffinnir cyfrifoldebau'r staff ym mholisïau perthnasol Cyngor y Celfyddydau.)

Dyletswyddau ychwanegol – unrhyw ddyletswyddau rhesymol sy'n gyson â'r uchod.

## Gwybodaeth, profiad a nodweddion

Rydym am ddenu i'r sefydliad pobl sydd â diddordeb ym myd y celfyddydau, ymrwymiad i egwyddorion gwasanaethau cyhoeddus agored ac atebol, a'r ddawn i weithio gydag amrywiaeth eang o gwsmeriaid. Rydyn ni'n credu mewn gosod y safonau uchaf ym mhob agwedd ar ein gwaith. Felly mae pob aelod o staff yn gennad i'r cwmni ac rydyn ni'n disgwyl i bawb barchu a chynnal ein henw da.

Ein nod yw bod yn sefydliad arloesol a blaengar. Rydyn ni am i'n staff gydweithio â'i gilydd er mwyn sicrhau ein bod ni'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddefnyddiol.

Rydyn ni'n ei chymryd yn ganiataol y bydd ein staff yn hyfedr wrth reoli gweinyddiaeth bob dydd ac y byddant wedi datblygu sgiliau trefnu da. Am hynny, mae diddordeb penodol gennym mewn staff sy'n gallu gweithio'n hyblyg gan ddefnyddio'u dychymyg i fynd i'r afael â'r sialensiau a fydd yn eu hwynebu - staff sydd â'r fenter a'r egni i lewyrchu mewn amgylchedd gwaith prysur, ac sy'n cael boddhad o gyflawni targedau uchelgeisiol ac ymestynnol.

Yn ogystal, mae'r rôl yma'n gofyn am y wybodaeth, y profiad a'r nodweddion penodol canlynol. Caiff ymgeiswyr eu hasesu yn erbyn y meini prawf hanfodol a dymunol a bennir isod:

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Gwybodaeth | • Cynefindra ag egwyddorion llywodraethu ac atebolrwydd<br>• Gwybodaeth am / diddordeb mewn sut y gall y celfyddydau gynorthwyo iechyd a llesiant pobl | • Gwybodaeth am y celfyddydau yng Nghymru<br>• Gwybodaeth am y sectorau cyhoeddus, preifat ac elusennol yng Nghymru |
| Sgiliau | • Sgiliau TG a gweinyddu datblygedig iawn<br>• Sgiliau ysgrifennu cadarn a phrofiad o gymryd cofnodion mewn cyfarfodydd | |
| Profiad | • Profiad blaenorol o ddarparu gwasanaethau gweinyddol o safon uchel<br>• Profiad o ymchwilio i wybodaeth | |
| Nodweddion | • Y gallu i gadw ymwybyddiaeth gyfoes am bolisïau a mentrau newydd ac awgrymu gwelliannau<br>• Y gallu i gyfleu ffeithiau a gwybodaeth sy'n ymwneud â cheisiadau a materion manwl<br>• Y gallu i weithio o'ch menter eich hun ac i weithio'n effeithiol o dan bwysau<br>• Y gallu i gyfathrebu'n glir, gyda phwyll a doethineb<br>• Natur hyderus, awdurdodol a threfnus | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Y gallu i flaenoriaethu a chynllunio'ch gwaith eich hun<br>• Brwdfrydedd dros y celfyddydau, yn enwedig yng Nghymru<br>• Agwedd hyblyg a'r ystwythder i addasu at anghenion newidiol y tîm<br>• Ymrwymiad i safonau uchel o ran gofal cwsmeriaid<br>• Y gallu a'r parodrwydd i deithio'n achlysurol ar draws Cymru a'r DU | |
| Yr Iaith Gymraeg | | • Rhuglder yn y Gymraeg (ysgrifenedig a llafar) |